



BETH FYDD ARNOCH EI ANGEN GYDA CHI

Rydyn ni wedi llunio rhestr fel canllaw i helpu disgyblion i baratoi ar gyfer eu trip i Blas Menai. Bydd Plas Menai'n darparu'r holl ddillad gwarchodol personol angenrheidiol h.y. siwtiau gwlyb, dillad dal dŵr, helmedau, cymhorthion arnofio ac ati.



Gwnewch yn siŵr bod y disgyblion yn dod â'r canlynol gyda nhw:

AR GYFER Y GWEITHGAREDDAU

Esgidiau ar gyfer mynd ar y dŵr: Mae hen esgidiau ymarfer yn ddelfrydol os oes gennych chi rai, neu esgidiau siwt wlyb. Cofiwch y bydd y rhain yn gwlychu!

(Sylwer nad ydi crocs na fflip-fflops neu debyg yn addas ar gyfer mynd ar y dŵr)

Tyweli: Nid ydym yn darparu tyweli yn y llety, felly gwnewch yn siŵr bod y disgyblion yn dod â thywel neu ddau gyda nhw. Mae posib sychu'r rhain yn ystafell sychu'r Ganolfan dros nos.

Dillad Nofio: Bydd arnoch angen dillad nofio i fynd o dan eich siwt wlyb wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau ar y dŵr

Dillad Cynnes: h.y. haenau thermal, cnu

Esgidiau ymarfer: Bydd arnoch angen y rhain ar gyfer gweithgareddau ar y tir fel y wal greigiau a beicio mynydd. Cewch eu gwisgo o amgylch y Ganolfan pan nad ydych yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hefyd.

Cwlwm Gwallt: bydd rhaid i ddisgyblion sydd â gwallt hir ei glymu'n ôl ar gyfer rhai gweithgareddau

50c ar gyfer loceri (i'w ddychwelyd)

Os oes gan y disgyblion eu siwtiau gwlyb eu hunain, mae croeso iddynt ddod â nhw, ar yr amod eu bod yn addas h.y. rhaid iddynt fod â llewys a choesau hir. Fodd bynnag, chi sy'n gyfrifol am unrhyw risg sy'n gysylltiedig â hyn ac ni ellir dal y Ganolfan yn atebol am unrhyw eitemau sy'n cael eu difrodi neu'n mynd ar goll.

O AMGYLCH Y GANOLFAN

Dillad cyfforddus bob dydd

Dillad isaf a sanau

Esgidiau

Siaced

Het, menig, sgarff: Hydref, Gaeaf, Gwanwyn

Eli haul a het haul: Gwanwyn, Haf

Deunyddiau ymolchi ac unrhyw foddion personol

Pres poced: mae ychydig o nwyddau i'w prynu ym Mhlas Menai (mygiau, bagiau, llyfrau ysgrifennu, bathodynau, magnetau) sy'n amrywio o ran pris o £1 i £10 a hefyd peiriannau gwerthu sydd ar gael ar gyfer diodydd a byrbrydau, felly rydyn ni'n awgrym rhyw £5-10 y dydd o arian.